**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 414**
**13 Chwefror, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) - eitem 5.6 |
| | Rhidian Dafydd | (Rheolwr Rhaglen Waith Yr Egin) - eitem 5.7 |
| | Huw Jones (Ymchwil) | (Uwch Swyddog Ystadegol) – eitem 6 |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 7 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2.1 **Cofnodion cyfarfod 413, a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr a chofnodion y Diwrnod i Ffwrdd a gynhaliwyd ar Ionawr 16 yng Nghaerfyrddin**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 413 (13.12.17)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Diwrnod i Ffwrdd (16.01.18).

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod 413 a chofnodion cyfarfod y Diwrnod i Ffwrdd.

2.2 **Materion yn Codi o gofnodion Cyfarfod 413**

**Hyrwyddo aelodaeth TAC**

**[Crynodeb:** Trafodwyd aelodaeth TAC a'r nifer o gwmnïau nad ydynt yn aelodau. Yn ogystal cyfeiriwyd at faterion ehangach yn ymwneud â'r sector.**]**

3. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

3.1 Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu. Nodwyd nad oedd y gofrestr wedi ei chrynhoi ers y cyfarfod diwethaf oni bai fod diweddariad wedi ei dderbyn. Penderfynwyd na ddylid dileu pwyntiau gweithredu os nad ydynt wedi eu cyflawni.

**[Crynodeb:** Trafodwyd Brand Cyw ac esboniwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Masnachol parthed y brand yn fuan.]

3.2 **Archif a'r Llyfrgell Genedlaethol**

Gofynnwyd am ddiweddariad parthed trafodaethau gyda'r Llyfrgell o ran sefydlu partneriaeth ar gyfer deunydd archif S4C a nodwyd fod cyfarfodydd yn parhau gyda swyddogion, bod y Tîm Rheoli wedi gofyn i gael gweld 'terms sheet' ar gyfer unrhyw bartneriaeth neu gytundeb posibl, ond nad oedd unrhyw beth pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Yr Adolygiad Annibynnol**

Roedd cyfarfod wedi'i drefnu rhwng OE, HJ, PW, Euryn Ogwen a'i swyddogion ar y 27ain o Chwefror. Roedd yr Adroddiad wedi ei gyflwyno i Ysgrifenyddion Gwladol DCMS a Swyddfa Cymru, ond nid oedd amserlen ar gyfer camau nesaf wedi ei gytuno hyd yma gyda DCMS.

Cyfeiriwyd at ddiddordeb yr Ysgrifennydd Gwladol mewn materion digidol, ac awgrymwyd y dylid ei wahodd i un o ddigwyddiadau S4C megis y Sioe Frenhinol.

Penderfynwyd y byddai GH a GW yn trafod opsiynau cyn y Sioe.

4.2 **Penodiadau i Fwrdd yr Awdurdod**

Nodwyd fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am aelodaeth o Fwrdd yr Awdurdod wedi bod, a bod diddordeb sylweddol wedi ei fynegi. Cynhelir cyfweliadau ym mis Ebrill.

Roedd HJ a PW wedi trafod sefyllfa ailbenodiadau gyda swyddogion DCMS unwaith yn rhagor gan dynnu sylw at ddyddiadau cwblhau cyfnod aelodaeth pob aelod presennol ac esbonio difrifoldeb posibl y sefyllfa iddynt.

Esboniwyd fod swyddogion DCMS yn ymwybodol o ddifrifoldeb y sefyllfa, ac yn awyddus i sicrhau fod gan weinidogion ddealltwriaeth glir ohoni.

Roedd swyddog newydd bellach wedi'i phenodi'n bennaeth yr adran benodiadau cyhoeddus a gobeithio y bydd modd adeiladu perthynas adeiladol gyda'r tîm newydd unwaith eto.

4.3 **Cyfarfod gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chwaraeon, Yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas**

Roedd y Cadeirydd ac OE wedi cynnal cyfarfod adeiladol gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **DCMS**

Roedd OE wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion DCMS, lle cafwyd cyfle i drafod strategaeth newydd S4C.

5.2 **Strategaeth Newydd – Diweddariad**

Esboniwyd fod LlI yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Newydd, ac y byddai diweddariad manwl yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Awdurdod yn fuan, gydag opsiynau ariannol cychwynnol i'w cyflwyno ym mis Mawrth.

5.3 **Codiad Cyflog cyffredinol i'r staff**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar y trafod gyda BECTU a'r argymhelliad i gynnig codiad cyflog i staff S4C, nodwyd nad oedd trefniant y BBC a BECTU wedi ei gadarnhau hyd yma.]

5.4 **Canolfan S4C Yr Egin**

**[Crynodeb:** Trafodwyd y diweddaraf o ran y tenantiaid newydd ar gyfer Canolfan S4C yr Egin. Holwyd a fu newid pwyslais i ddenu tenantiaid yn y maes digidol yn hytrach na thenantiaid sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Nid oedd S4C yn ymwybodol o unrhyw newid pwyslais ar ran y Brifysgol.]

5.5 **Strategaeth y Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OE asesiad o berfformiad strategaeth y Bwrdd Masnachol ac adroddiad ar berfformiad a dyfodol y buddsoddiadau. Trafodwyd yr adroddiadau, y perfformiad, llywodraethiant ac adrodd y Bwrdd Masnachol i Fwrdd yr Awdurdod. Cytunwyd:

- Y dylid adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Masnachol;
- Y dylid penodi'r Prif Weithredwr yn Gadeirydd y Bwrdd Masnachol, ac y dylid penodi Aelodau o blith Bwrdd yr Awdurdod i wasanaethu fel cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Masnachol;
- Y dylid ystyried opsiynau i adrodd yn fwy clir o'r Bwrdd Masnachol i Fwrdd yr Awdurdod, a phrosesau i gymeradwyo'r Strategaeth Fasnachol a phenodiadau i'r Bwrdd Masnachol.

Cytunwyd hefyd ar nifer o egwyddorion o ran buddsoddiadau i'r dyfodol.]

5.6 **Cyflwyniad Adroddiad Siarter Amrywiaeth S4C - Adlewyrchu Cymru ac edrych ar ein hunain: amrywiaeth ar y sgrin a thu ôl i'r camera**

Cyflwynodd CHR Siarter Amrywiaeth ddrafft a oedd yn amlinellu cynlluniau ar gyfer sicrhau a monitro amrywiaeth yn S4C o ran y gweithle ac ar-sgrin.

Esboniwyd fod y Siarter ddrafft yn cyflwyno diweddariad i Fwrdd yr Awdurdod ar waith ar hybu amrywiaeth o fewn S4C a'r sector, a'r bwriad oedd i lansio'r Siarter a'r cynllun newydd yn ystod chwarter cyntaf 2018.

Nodwyd fod bwriad i fonitro amrywiaeth o fewn gweithlu S4C ac o fewn y sector a'r rheini sy'n gweithio ar gynyrchiadau S4C. Roedd opsiynau o ran creu system ar gyfer monitro amrywiaeth o fewn y sector a chynyrchiadau wedi eu hystyried, ac wedi eu cynnwys o fewn y Siarter. Esboniwyd y byddai sefydlu'r drefn ar gyfer monitro yn gofyn am £35k o fuddsoddiad.

Holwyd a oedd y Siarter drafft yn esbonio'n glir beth yw'r amcan o ran hybu a monitro amrywiaeth. Holwyd hefyd sut y bwriedir asesu perfformiad y gwasanaeth a'r sefydliad o ran portreadu amrywiaeth, ac ai'r bwriad yw adlewyrchu cymdeithas o fewn y DU, Cymru, cynulleidfa S4C neu Siaradwyr Cymraeg. Awgrymwyd nad oedd y Siarter fel ag yr oedd yn esbonio hyn ac y byddai angen deall hyn hefyd er mwyn gallu monitro a yw'r strategaeth yn llwyddo ai peidio.

Roedd y Bwrdd yn awyddus iawn i sicrhau fod amcanion y Siarter a'r cynllun, a'r diffiniadau perthnasol o ran amrywiaeth a phortread yn glir ac yn syml.

Esboniodd LLI fod y Strategaeth Cynnwys yn anelu i gryfhau portread S4C o'r gynulleidfa ar y gwasanaeth ei hun, a bod trafodaethau cyson yn digwydd gyda'r cwmnïau cynhyrchu er mwyn gwella'r portread.

Nodwyd elfen o bryder na ddylai ymgais i wella portread y gwasanaeth arwain at benderfyniadau comisiynu fyddai'n cael eu gyrru gan yr angen i gyflawni cwotâu penodol.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at system Diamond y CDN (Creative Diversity Network) a ddefnyddir gan ddarlledwyr eraill. Mae'r meini tramgwydd i S4C ymuno â'r system yn fawr a'r manteision i gorff o faint S4C, efallai, ddim yn ddigonol.]

Mynegwyd elfen o bryder y gallai unrhyw strategaeth amrywiaeth newydd greu biwrocratiaeth monitro os nad yw'n cael ei lunio a'i weithredu'n briodol. Roedd angen gochel rhag hyn, a sicrhau fod unrhyw strategaeth a strwythurau sy'n cael eu cymeradwyo maes o law yn syml a chymwys, ac yn debygol o sicrhau'r deilliannau perthnasol.

Nodwyd elfen o bryder hefyd parthed gofynion ariannol sefydlu'r systemau monitro.

Penderfynodd Bwrdd yr Awdurdod y dylid ystyried y ddogfen ymhellach, gan gynnwys sut i ddiffinio amrywiaeth, beth yw'r bwriad o ran portread, sut i'w fonitro, sut i'w gyfleu i'r sector, ac ail-ddrafftio'r ddogfen mewn dull mwy cryno a chlir cyn ei ail-gyflwyno i Fwrdd yr Awdurdod.

5.7 **Diweddariad parthed y Cynlluniau Adleoli a Chydleoli**

Cyflwynodd OE a RhD ddiweddariad parthed y Prosiectau Adleoli, Cydleoli ac Ystâd Parc Tŷ Glas. Esboniwyd fod cryn dipyn o waith wedi'i gyflawni o ran rhoi strwythur ffurfiol i'r prosiectau Adleoli a Chydleoli dros y misoedd diwethaf.

Cyflwynodd RhD fraslun o'r strwythur newydd sydd wedi ei gyflwyno er mwyn rheoli'r prosiectau gan gynnwys rheoli risgiau. Roedd y strwythur yn seiliedig ar arferion gorau rheoli prosiectau mawr.

**Prosiect Adleoli**

Roedd y gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar faterion staffio, gan gynnwys ceisio rhagor o eglurder am fwriadau staff. Gobeithir y bydd darlun cliriach ar gael erbyn mis Mawrth. Bydd hyn yn galluogi S4C i gynllunio ar gyfer parhad y busnes dros gyfnod y symud.

**Prosiect Cydleoli**

O ran y prosiect Cydleoli, roedd gwaith paratoi ar gyfer y broses TUPE wedi ei gynnal, gan gynnwys archwiliad sgiliau staff a pharhau gyda'r gwaith o gynllunio sut i weithredu'r system staffio newydd gyda'r BBC.

**Prosiect Tŷ Glas**

Esboniodd fod papur yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys diweddariad parthed opsiynau ar gyfer gwerthiant ystâd Parc Tŷ Glas maes o law, a chynlluniau ar gyfer defnydd o'r ystâd yn y cyfamser.

Diolchodd JD am y diweddariad, gan nodi ei fod yn falch iawn o dderbyn adroddiad manwl oedd yn dangos strwythurau rheolaeth addas ar gyfer y prosiectau.

5.8 **Ystyried anghenion craffu Bwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Craffu ar gyfer y Prosiectau Adleoli, Cydleoli a Chytundeb y TSA**

Cyflwynodd JD argymhelliad parthed gofynion craffu Bwrdd yr Awdurdod. Esboniodd fod Bwrdd yr Awdurdod wedi penderfynu ym mis Rhagfyr y dylai dderbyn cyflwyniad misol parthed cynnydd y Prosiect Adleoli. Roedd hefyd angen ystyried anghenion cyfnod nesaf y Prosiect Cydleoli.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at rhai o'r trafodaethau ar gyfer y prosiectau megis Ffi Gwasanaeth yr Egin a'r TSA gyda'r BBC a nodwyd bod angen adroddiadau craffu rheolaidd. Bu'r Pwyllgor Craffu o'r dechrau yn awyddus i greu rhaglen waith rheolaidd. Oherwydd natur y prosiectau neu'r angen am benderfyniadau ar frys cyfeiriwyd llawer o'r materion oedd angen penderfyniad yn syth at gyfarfod Bwrdd yr Awdurdod.]

Bellach, gyda'r Prosiectau Adleoli a Chydleoli'n prysur ddatblygu, a gyda'r gwaith manwl o gytuno ar y trefniadau a chostau'r TSA gyda'r BBC yn mynd rhagddo, esboniodd JD ei fod yn amserol i ystyried a yw Bwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Craffu yn derbyn gwybodaeth addas ac amserol oddi wrth y swyddogion er mwyn caniatáu i'r Bwrdd a'r Pwyllgor sicrhau lefel briodol o graffu.

Cyflwynwyd a chymeradwywyd yr argymhelliad canlynol:

Er mwyn sicrhau gweithdrefn graffu briodol ar gyfer y prosiectau yn ystod y cyfnod allweddol sydd i ddod, (i) wrth baratoi i symud i'r Egin yn yr hydref, (ii) wrth baratoi i gydleoli gyda'r BBC yn Sgwâr Canolog yn ystod 2019/20, ac yna (iii) dad-gomisiynu'r ystâd bresennol ym Mharc Tŷ Glas, argymhellir y dylai'r swyddogion perthnasol gyflwyno adroddiad cynnydd ysgrifenedig misol i Fwrdd yr Awdurdod, a fyddai'n cynnwys, fel lleiafswm, y wybodaeth ganlynol yn ymwneud â'r tri phrosiect uchod:

- Diweddariad cyffredinol parthed cynnydd y prosiectau;
- Cofrestr risg ar gyfer y tri phrosiect, gan gyflwyno'n glir newidiadau ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd ag esboniad o fesurau sydd wedi eu mabwysiadu er mwyn rheoli risgiau sydd wedi eu hadnabod;
- Diweddariad ariannol;
- Diweddariad staffio; a
- Diweddariad parthed gweithredu cytundeb y TSA, gan gynnwys unrhyw *issues* ariannol neu dechnegol sydd wedi codi gyda'r BBC.

Penderfynwyd y dylid cytuno ar raglen waith ac amserlen fanwl ar gyfer gwaith y Pwyllgor Craffu.

Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i Gadeiryddion Bwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Craffu drafod a chytuno ar fformat a chynnwys manwl yr adroddiadau misol, a rhaglen waith ac amserlen y Pwyllgor Craffu gyda'r Prif Weithredwr a'r swyddogion perthnasol.

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu cyn  cyfarfod Bwrdd yr Awdurdod ym mis Mawrth, ac ar ôl i'r broses o drafod bwriadau staff sydd â'u swyddi'n symud i'r Egin gael ei gwblhau er mwyn ystyried ymhellach y sefyllfa staffio. Nodwyd y byddai'r cyfarfod yn agored i holl Aelodau Bwrdd yr Awdurdod.

**MATERION CHWARTEROL**

6. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3, 2017-18**

Cyflwynodd AR adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3.

Esboniwyd fod yr Adroddiad eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynnwys yn ei gyfarfod diwethaf.

**[Crynodeb:** Roedd Aelodau'n falch o'r arlwy diweddar a'r canfyddiad fod safon rhaglenni'n cynyddu. Nodwyd y gwaith sylweddol o ran ail-lansio cyfresi a chodi safonau a'r ymateb cadarnhaol i'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Cyfeiriwyd at yr arlwy Chwaraeon a'r berthynas rhwng cost a pherfformiad y ddarpariaeth.

Croesawyd y trafodaethau golygyddol agored gyda'r BBC a chyfeiriwyd at ran bwysig Newyddion yn yr amserlen.]

7. **Adroddiad Ariannol Chwarter 3, 2017-18**

Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol Chwarter 3, 2017-18 er gwybodaeth.

**Cyflwyno Cyllideb 2018-19 a Chynllun Ariannol 5 Mlynedd**

Nodwyd y bydd Cyllideb ddiwygiedig drafft ar gyfer 2018-19 a Chynllun Ariannol 5 mlynedd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

8. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at sylwadau'n ymwneud â gwylio cyfresi drama ar Clic, a nodwyd oherwydd patrymau gwylio newydd sy'n datblygu bod angen sicrhau fod yr holl benodau ar gael i'w gwylio ar gyfer cyfnod digonol yn dilyn diwedd cyfres. Esboniodd AR fod Craith eisoes ar gael am 35 diwrnod ar ôl i'r bennod olaf gael ei darlledu, a gobeithio y bydd modd cynnig darpariaeth debyg ar gyfer Un Bore Mercher fel box-set.

Roedd cynnig gwylio box-set i ystod o ddramâu a chyfresi yn rhan greiddiol o'r strategaeth newydd.

9. **Adroddiad Cwynion**

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion er gwybodaeth.

10. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

11. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.